CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 7fed o Dachwedd 2017 / 7th November 2017

Yn bresennol / Present: Cyng Geraint Davies, Cyng Bill Green, Cyng Emyr Rees, Cyng Alwena Williams, Cyng Eluned Jones, Cyng Hazel Thomas, Cyng Euros Davies, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Sion Jenkins

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Daniel Evans

Materion Personol/Personal Matters:
Llongyfarchiadau i'r canlynol:

- CFFI Llanwenog ar ennill yr Eisteddfod a Luned Mair ar ennill y Gadair
- Carys Davies (merch y Cyng Sir Euros Davies) a Jason Freeman ar eu dyweddiad.
- Siwan Davies (merch y Cyng Geraint Davies) ac Emyr Richards ar eu priodas.

Congratulations were extended to the following:

- *Llanwenog YFC on winning the Eisteddfod and Luned Mair on winning the Chair.*
- *Carys Davies (daughter of County Councillor Euros Davies) and Jason Freeman on their engagement*
- *Siwan Davies (daughter of Cllr Geraint Davies) on her marriage to Emyr Richards.*

1.	**Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests** Gwnaeth y Cyng Eluned Jones ddatgan diddordeb ym mhwynt 3d. *Cllr Eluned Jones declared a personal interest in point 3d.*	
2.	**Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes** Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Alwena Williams. *The October minutes were proposed as a true record by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Alwena Williams.*	
3. a.	**Materion yn Codi – Matters Arising** Cyflymder Gorsgoch Speed Limits – Derbyniwyd ymateb gan y Cyngor Sir ond yn anffodus nid oes modd gostwng y cyflymder ar hyn o bryd. Penderfynwyd gofyn iddynt am olau yn fflachio '40'. *A response was received from the County Council but unfortunately there is no way of reducing the speed limit at this time. It was decided to ask for '40' flashing lights.*	Clerc
b.	Simon Evans – Hanes Llanwenog History – Cytunodd Simon i wneud y cyflwyniad unwaith eto penderfynwyd ar Ysgol Dyffryn Cledlyn ar y 26ain o Ionawr 2018 a 7.30yh. Mi fydd y Clerc yn holi pa dâl y mae Simon ei eisiau. Penderfynwyd codi tâl mynediad o £2 yn cynnwys raffl a'r arian sydd dros	Clerc

	ben i fynd i Cylch Meithrin Cledlyn. Cynigodd Cyng Hazel Thomas i wneud posteri. *Simon Evans agreed to re-do the presentation. It was agreed to hold it at Dyffryn Cledlyn School on the 26th January 2018 at 7.30pm. The Clerk would ask Simon how much he wanted for coming and presenting to us. A charge of £2 for entry would be raised to include the raffle, any money left over would be donated to Cylch Meithrin Cledlyn.*	
c.	Un Llais Cymru / *One Voice Wales* – Derbyniwyd adroddiad manwl gan y Cyng Hazel Thomas o'r cyfarfod. Trafodwyd cau Cartref Bodlondeb, llwybrau beicio a cheffylau, hyfforddiant, angen aelod i fod ar pwyllgor Cynnal y Cardi cynnigwyd enw'r Cyng Hazel Thomas i fynychu a gwybodaeth am comisiynydd y bobl hyn. *A detailed report of the meeting was received from Cllr Hazel Thomas. The closing of Bodlondeb home was discussed, horse and bike paths, training, Cynnal y Cardi are looking for a representative to be on their committee Cllr Hazel Thomas' name was proposed, and information about the senior citizens commissioner.*	
ch.	Ysgol Llanwenog School – Nid oes llawer o wybodaeth wedi ei dderbyn wrth yr Esgobaeth, dim ond ebost yn dweud bod yr adeilad dal yn nwylo'r Cyngor Sir ar hyn o bryd. Cynigwyd bod y Clerc yn mynd nôl atynt i ofyn beth sydd yn digwydd gyda pherchnogaeth y tir. Fe wnaeth y Cyng Euros Davies gyhoeddi bod Ysgolion Llanwnnen a Chwrtnewydd yn mynd i cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu. *Nothing much has been received from the diocesan apart from the fact that the school is yet to be handed back to them from the County Council. It was proposed that the Clerk ask them what is happening with the ownership of the land. Cllr Euros Davies announced that Llanwnnen and Cwrtnewydd schools will be put on the market to be sold.*	
d.	Cae Chwarae Cae Sarn Playing Field – Fe wnaeth y Cyng Emyr Rees ymweld a'r safle gyda'r Cyng Eluned Jones ac mi fydd y ffens yn cael ei drwsio yng nghornel gwaelod y cae ac mae angen llawr newydd ar y fframm ddringo lle mae'r darn pren yn pwdri ac yn llithrig. Mae'r tsiaens ar y siglen wedi cael eu newid a tarmac newydd wedi ei roi o dan y sedd. Mae croeso i'r Cyngor Sir fynd a'r arwydd os yw yn pryderi gofid o ran diogelwch. Mi fydd y Cyng Euros Davies yn gofyn i'r Brifathrawes oes modd i'r parc gael offer cae chwarae Ysgol Cwrtnewydd. *Cllr Emyr Rees visited the site with Cllr Eluned Jones and the matters of concern were to repair a small portion of the fence in the bottom corner of the field and to put a new floor on part of the climbing frame as it is rotting and slippery. The chains have been replaced on the swings and a new tarmac pad put under the seat. The sign is the ownership of the County Council therefore the park have said that this can*	Cyng Euros Davies

	be removed by them if it is deemed to be unsafe. Cllr Euros Davies will ask the headteacher whether the park can have the equipment from Cwrtnewydd School.	
dd.	Datgan Diddordeb / Declaration of Interest –Nid yw'n ofynol i'r Cynghorwyr Cymuned rhoi manylion o'r hyn y maent yn ei wneud fel y Cynghorwyr Sir, dim ond bod y Clerc yn cadw cofrestr. *It is not compulsory for Community Councillors to state what they do only County Councillors, the Clerk only needs to hold a register.*	
e.	Defibrilliwr Defibrillator – Mae Sioe Cwmsychpant wedi ymateb yn dweud eu bod yn ymwybodol bod angen monitro'r peiriannau a newid y batris a'r pads yn gyson a'r costau sydd ynghlwm wrth wneud hyn. *Cwmsychpant Show have responded to note that they are aware that the machines need monitoring and that new batteries and pads will need to be changed regularly and the costs associated with this.*	
f.	Pont Cwrtnewydd Railings – Mae'r bont wedi cael ei pheintio! *The bridge has been painted!*	
4.	**Gohebiaeth – Correspondence**	
a.	Sefydliad Aren Cymru / Wales Kidney – Y Cynghorwyr i feddwl os ydynt am gynnal hwn y flwyddyn nesaf neu codi arian at achos arall. *The Councillors to think whether they wish to hold this next year or raise money towards another cause.*	
b.	Gwasanaeth Tan / Fire Service – Nodwyd, cytunodd y Cyng Hazel Thomas i lenwi'r holidaur. *Noted, Cllr Hazel Thomas agreed to fill in the consultation response.*	Cyng Hazel Thomas
c.	Sul y Cofio / Remembrance Sunday - 2yp ar y 12fed o Dachwedd. Tê i ddilyn. *2pm on the 12th November Tea to follow.*	
ch.	Arolwg 2018 o Etholaethau www.comffin-cymru.gov.uk / 2018 Review of Parliamentary Constituencies. Nodwyd / *Noted*	
d.	IRPW – Adroddiad Blynyddol Ddraft ac Ymgynghoriad / *Draft Annual Review and Consultation.* Dogfen yn amlinelli lle all fwy o bwerau ddod lawr i'r Cynghorau Cymuned yn y dyfodol a'r ffaith all tal cael eu rhoi i'r Cynghorwyr Cymuned os ydynt yn cymryd dyletswyddau ymlaen ynghyd a chostau teithio ayyb. Cyng Hazel Thomas a'r Clerc i fynychu digwyddiad ymgynghorol yn St Clears ar y 4/12. *A report outlining that more powers could come to the Community Council in the future and the fact that Community Councillors*	Cyng Hazel Thomas a'r Clerc

	could be paid for duties they may undertake as well as travelling costs etc. Cllr Hazel Thomas and Clerk to attend consultation event on the 4th December in St Clears.	
5.	**Taliadau a Ceisiadau am arian – Payments and Requests for Money**	
a.	Clive Jones Gwefan / Website - £120	Clerc
b.	Archwiliad Cyfrifon / Accounts Audit - £186.75	
c.	Cyngor ar Bopeth / Citizens Advice £25.00 C: Cyng Gwilym Jenkins E: Cyng Emyr Rees	
6.	**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting**	
a.	Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 5ed o Ragfyr am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. *It was decided to hold the next meeting on the 5th of December at 7.30pm at Drefach Village Hall.*	
b.	Derbyniwyd cwyn am y coed sydd ar y ffordd i Capel Dewi – dyw'r gwaith dal heb ei wneud. *A complaint was received regarding trees on the road to Capel Dewi – the work has yet to be done.*	Clerc
c.	Derbyniwyd cwyn am y tyllau yn y ffordd i Cwmbach a Trafle. *A complaint was received regarding pot holes on the road to Cwmbach and Trafle.*	Clerc
ch.	Angen dirfawr i glanhau draeniau ymhobman yn y Plwyf. *There's a need to clean drains throughout the Parish.*	Clerc